

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 11 o IONAWR 2021 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair),Alan Lewis,Ian Evans,Tyssul Evans,Linda Williams,Caroline Williams,Aled Williams,Geraint Rosser a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Tracey James Heddwyn Jones,Meic Bowen a Geoff Hewitt

2499 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Cydymdeimlwyd a Tracey James ar farwolaeth Tad ei phartner a dymunwyd adferiad buan i Margaret Jones, gwraig Heddwyn a oedd yn Ysbyty Glangwili ar ôl cwmp yn y Tŷ a Alison Prideaux,gwraig Glyndwr oedd yn gwella gartref ar ol y Covid.

2500 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 07/12/2020 fel rhai cywir.

2501 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2478 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Cafwyd adroddiad ar ymateb oddiwrth y Cyngor Sir

Tud 1. Cofnod Rhif 2478- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2478 – Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymatebion pellach.

Tud 1. Cofnod Rhif 2478 – Parc Gwynfryn – Adroddwyd gyda balchder bod y gwaith wedi dod i ben.

Tud 3. Cofnod Rhif 2497 - Parc Pontiets - Arhoswn am wellhad yn y tywydd cyn symud ymlaen a'r gwaith angenrheidiol.

Tud 3. Cofnod Rhif 2497 - Parc Meinciau - Bydd y gwaith angenrheidiol yn cael ei gwneud yn ystod yr wythnosau nesaf.

Tud 3. Cofnod Rhif 2498 – Cais am Grant Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau – Arhoswn am benderfyniad oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2502 Banc Bwyd Pembrey a Phorth Tywyn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

2503 Ambiwllans Awyr Cymru i Blant – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

2504 CISS – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2505 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Coeden Nadolig - Llythyr yn diolch am y rhodd.

2506 Ffederasiwn Ysgolion Carwe,Gwynfryn a Phont-henri - Cardiau Nadolig i'r rai dros 80 - Llythyr yn diolch am y rhodd.

2507 Neuadd Pontiets – Rent y Llyfrgell – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2508 Neuadd Pontiets – Rent y Swyddfa – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2509 Neuadd Pontiets – Coeden Nadolig – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2510 Neuadd Pontiets - Grant i'r Neuadd – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2511 Ebeneser Crwbin – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2512 Ysgol y Fro,Llangyndeyrn – Cardiau Nadolig i'r rai dros 80 – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2513 Cyngor Sir Gar – Cau Hewl C2077 dros dro,Ponthenri – Nodwyd y Llythyr.

2514 Cyngor Sir Gar - Arolwg Parciau - Awdurdodwyd y Clerc i gadarnhau ein bod yn archwilio'r Parciau.

Ceisiadau Cynllunio

2515 a) Rhif y Cais – PL/00126 – Gwendre Fechan,Llandyfaelog – Cabanau Glamping– Dim Gwrthwynebiad

b) Rhif y Cais - PL/00804 – Tir cyfagos at 6,Heol Mansant,Pontiets – Amrywiad Amod 3 – Dim Gwrthwynebiad

c) Rhif y Cais - PL/00957 - 67,Dan Y Cwarre,Carwe - Tŷ Gwydr - Dim Gwrthwynebiad.

ch) Rhif y Cais - PL/01001 - Tir ar Oakland - Pedair Heol - 2 Tŷ 4 Ystafell Gwely - Dim Gwrthwynebiad.

d) Rhif y Cais – PL/01015 – 222,Heol y Meinciau,Pontiets – Estyniad Un Llawr – Dim Gwrthwynebiad.

dd) Rhif y Cais – PL/01042 – Llwynteg, Llangyndeyrn – Troi Ysgubor yn Llety Gwyliau – Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2516 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2517 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Rhagfyr 2020.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2518 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Rhagfyr)

b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Rhagfyr)

c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Rhagfyr)

ch) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Rhagfyr)

d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Rhagfyr)

dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Rhagfyr)

e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Rhagfyr)- £183.95

f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Rhagfyr) - £13.86

ff) Excel Electrics – Coed Nadolig Carwe - £504.00

g) Papur Llungopïo - £15.00

ng) Dragon Play – Gwaith ym Marc Pontiets - £2365.00

h) Torch Pabi Coch - £15.00

i) Archwiliad 2019/2020 - £281.75

2519 Archwiliad Cyfrifon y Cyngor 2019 – 2020

Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn â'r uchod. Darllenwyd y Llythyr oddiwrth Cwmni Grant Thornton yn amgáu'r Dystysgrif Archwilio ac Adroddiad Amodol i'r Cyngor. Cynigwyd gan Tyssul Evans ac eiliwyd gan Aled Williams ein bod yn derbyn cynnwys y llythyr a diolchwyd i'r Clerc am ei waith ynglŷn â'r mater hwn.

2520 Llwybr Treftadaeth

Penderfynwyd ein bod yn gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â diweddarau'r byrddau gwybodaeth sydd ar y Llwybr.

2521 Glanhau/Golchi Ceir – Heol y Meinciau,Pontiets

Derbyniwyd cwyn eto ynglŷn â'r mater uchod. Penderfynwyd gofyn i Adran Monitro'r Cyngor Sir edrych ar y mater eto.

2522 Cysgodfa Bys Crwbin

Derbyniwyd cwynion ynglŷn â phobl yn gadael sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y safle hwn. Penderfynwyd edrych i mewn i'r mater ar frys.

Cyfarfod nesaf:- 1af o Chwefror 2021

Llofnodwyd..... CADEIRYDD

Dyddiad.....